# Hwyluso dysgu a datblygu unigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â defnyddio ystod o ddulliau i alluogi unigolion i gaffael sgiliau a gwybodaeth, neu eu gwella, ac ymarfer eu cymhwyso mewn cyd-destunau. Mae hefyd yn cynnwys rhoi adborth i ddysgwyr a'u hannog i fyfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud a'i wella.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sefydlu a chynnal perthynas broffesiynol gyda'r dysgwr sy'n cefnogi unigolion i ddysgu a myfyrio
2. archwilio amcanion, anghenion dysgu a nodau'r dysgwr a chytuno arnynt
3. cytuno ar gynllun dysgu, cymhwyso a myfyrio
4. defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i helpu'r dysgwr i gaffael/datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt
5. cefnogi'r dysgwr wrth gymhwyso ei ddysgu mewn cyd-destun
6. rhoi adborth adeiladol a chymhellol i helpu'r dysgwr i gymhwyso'r hyn y mae wedi'i ddysgu yn well
7. cynorthwyo'r dysgwr i fyfyrio ar eu harferion a'u profiad
8. addasu technegau dysgu, cymhwyso a myfyrio i ddiwallu anghenion pellach
9. cynnal iechyd a diogelwch y dysgwr, chi eich hun a phobl eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion sefydliadol, cyfreithiol a phroffesiynol y dylid eu dilyn wrth gynllunio rhaglenni dysgu a datblygu
2. egwyddorion, defnyddiau a gwerth dysgu a datblygu ar sail unigol
3. nodweddion perthynas sy'n cefnogi unigolion i ddysgu, cymhwyso a myfyrio
4. agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i'w hystyried wrth hwyluso unigolion i ddysgu a datblygu
5. pwysigrwydd arferion myfyriol mewn dysgu a datblygu unigol
6. ffactorau allweddol i'w hystyried wrth osod nodau a chytuno arnynt gyda dysgwyr unigol
7. yr ystod o ddulliau cyflwyno sy'n briodol i ddysgu unigol
8. ystod yr adnoddau, gan gynnwys cymorth gan eraill, sydd ar gael i gefnogi dysgu unigol
9. sut gall technoleg wella adnoddau a dulliau cyflwyno ar gyfer dysgu unigol
10. yr ystod o dechnegau y gellir eu defnyddio i annog arferion myfyriol gan y dysgwr
11. sut i gefnogi gwahanol fathau o ddysgwyr wrth gymhwyso dysgu newydd neu well mewn cyd-destun
12. y mathau o rwystrau y mae dysgwyr yn eu hwynebu a sut i ddatblygu strategaethau i oresgyn y rhain
13. sut i addasu cynlluniau dysgu mewn ymateb i gynnydd a myfyrio dysgwyr yn ogystal â pharhau i ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr a'r deilliannau a ddymunir
14. sut i asesu a rheoli risg ym maes eu gwaith wrth hwyluso unigolion i ddysgu a datblygu

## Geirfa

### Asesu a rheoli risgiau

Gallai hyn fod yn asesiad risg ffurfiol ac ysgrifenedig ond gallai hefyd fod yn anffurfiol ac yn ddeinamig — yn monitro ac yn rheoli risg yn barhaus.

### Ymgeisio

Y broses o gymhwyso sgiliau a gwybodaeth newydd neu well mewn cyd-destun go iawn neu realistig, er enghraifft sefyllfa yn y gwaith.

### Rhwystrau

Unrhyw beth a allai atal y dysgwr rhag cymryd rhan yn llawn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, diffyg hyder neu sgiliau a gwybodaeth hanfodol.

### Dulliau cyflwyno

Unrhyw ddull sy'n cefnogi dysgu a datblygu, er enghraifft, cyflwyniadau, cyfarwyddiadau, arddangosiadau, efelychiadau, cyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth ac ymarfer sgiliau, dysgu drwy brofiad, prosiectau grŵp/unigol ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offer ac apiau ar-lein a/neu ddysgu cyfunol.

### Amrywiaeth

Cydnabod bod pob unigolyn yn unigryw, a chydnabod ein gwahaniaethau unigol e.e. o ran diwylliant, gallu, rhywedd, hil, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd unigol arall.

### Nodau

Mae hyn yn cyfeirio at dargedau dros dro neu gamau tuag at helpu dysgwyr i gyflawni deilliannau ac amcanion cyffredinol.

### Iechyd a diogelwch

Mae hyn yn cynnwys iechyd a diogelwch corfforol yn ogystal â lles emosiynol.

### Amcanion dysgwyr

Amcanion perfformiad fydd y rhain fel arfer – er enghraifft gwneud rhywbeth neu wneud rhywbeth gwell.

**Dulliau**

Unrhyw ddull sy'n cefnogi unigolion i ddysgu a datblygu, er enghraifft, cyfarwyddiadau, arddangosiadau, cyfleoedd i gymhwyso sgiliau gwybodaeth ac ymarfer, dysgu drwy brofiad, prosiectau unigol ac ymchwil.

**Pobl eraill**

Mae hyn yn cyfeirio at bobl eraill a allai fod yn rhan o'r gweithgareddau dysgu neu wedi'u heffeithio ganddynt, er enghraifft, aelodau staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr neu bobl yn yr un maes.

**Deilliannau**

Gallai'r rhain fod yn ddeilliannau i'r grŵp cyfan - er enghraifft galluogi effeithiolrwydd tîm - a/neu ddeilliannau i'r unigolion sy'n ffurfio'r grŵp — er enghraifft caffael sgiliau unigol.

**Myfyrio/arferion myfyriol**

Y broses o feddwl yn feirniadol am yr hyn a wnawn, gan nodi cyfleoedd i wella ac anghenion dysgu pellach lle bo hynny'n briodol.

**Adnoddau**

Mae hyn yn cynnwys unrhyw adnodd ffisegol neu ddynol sy'n cefnogi'r broses ddysgu a datblygu, a gallai gynnwys offer technegol, technolegau digidol (gan gynnwys offer ac apiau ar-lein), taflenni, llyfrau gwaith, pobl — er enghraifft siaradwyr allanol — ac ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb.

**Risg**

Mae hyn yn cynnwys risgiau iechyd a diogelwch ond gall hefyd gynnwys, er enghraifft, y risg o ddulliau cyflwyno amhriodol neu osod nodau afrealistig. Gall y risgiau amharu ar ddysgwyr unigol, grŵp o ddysgwyr neu i'r rhai sy'n hwyluso.

**Technoleg**

Mae hyn yn cyfeirio at galedwedd ac offer/apiau ar-lein y gellir eu defnyddio wrth gyflwyno rhaglenni dysgu a'u hasesu.

CLDLD07

Hwyluso dysgu a datblygu unigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Meh 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lifelong Learning UK |
| **RCU gwreiddiol** | LaD07 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Gweithwyr Addysgu Proffesiynol, Addysgu a darlithio, Gweithiwr Gwasanaethau Cyhoeddus Proffesiynol, Cymorth dysgu uniongyrchol |
| **Cyfres/Set** | Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | anghenion dysgu cyfunol, anghenion datblygu, ffocws dysgu, nodi anghenion dysgu, dysgu, dadansoddi anghenion dysgu, blaenoriaethu anghenion dysgu, anghenion hyfforddi, cyfrinachedd dysgwyr, ymarferwyr datblygu dysgu |